WILLIAMS, JOHN CEULANYDD ('Ceulanydd', 1847? - 1899), gweinidog gyda'r Bedyddwyr a llenor

Enw: John Ceulanydd Williams
Ffugenw: Ceulanydd
Dyddiad geni: 1847?
Dyddiad marw: 1899
Priod: Ann Williams (née Jones)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr a llenor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd yn Nhal-y-bont Ceredigion. Dysgodd grefft gwehydd yn Nhal-y-bont a bu'n gweithio am beth amser yng ngweithiau mwyn yr ardal, ond anogwyd ef i bregethu gan ei fam-eglwys, ac yn gynnar yn 1868, wedi cwrs o addysg yn y Tywyn, a thrachefn yn y 'Graig House Academy' yn Abertawe, fe'i derbyniwyd i goleg yr enwad yn Llangollen. Ordeiniwyd ef yn Ninbych 16 Ionawr 1871, a symudodd oddi yno i Amlwch (1875?), Tal-y-sarn, Caernarfon (1879), Tabernacl, Merthyr Tydfil (1880), ac yn olaf, yn 1882, i Salem a Chaersalem, Maesteg, lle y bu farw 11 Medi 1899. Priododd yn ystod ei weinidogaeth yn Ninbych ag Ann Jones, merch David Jones, diacon yn yr eglwys, a goruchwyliwr rheilffordd L. ac N.W. o Caerlleon i Gaergybi. Ganed iddynt naw o blant.

Llenydda oedd diddordeb pennaf 'Ceulanydd.' Cyhoeddodd *Y Ddau Foneddwr. Bywgraphiadau o'r diweddar Robert Foulkes, Ysw., Dinbych a'r diweddar John Palmer, Ysw., Amlwch* (d.d.), a chyfrol dan y teitl *Athrylith Ceiriog Hughes*, 1892?, a thraddododd ddarlith ar emynyddiaeth Cymru yng nghyfarfodydd Undeb y Bedyddwyr yn Aberteifi yn 1888. Ond fel bardd yn sicr yr adwaenid ef orau yn ei ddydd. Yr oedd yn aelod o orsedd y beirdd, bu'n feirniad barddoniaeth yn yr eisteddfod genedlaethol fwy nag unwaith, ac enillodd amryw o brif wobrwyon ei gyfnod, e.e. yng nghystadleuaeth y gadair yn eisteddfod genedlaethol Pontypridd (1893) ar 'Pwlpud Cymru' (cyhoeddwyd yn ddiweddarach, d.d.), yn eisteddfod Llandudno (1888) am awdl-bryddest ar 'Ac yr oedd hi yn nos' (cyhoeddwyd 1888), ac yn eisteddfod Awstralia (1893) am bryddest ar 'Mr. Spurgeon' (cyhoeddwyd 1893).

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Seren Cymru, 22 Medi 1899, 8; 29 Medi 1899, 3

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, 1899, 277

Y Geninen, 1900, 40 (D), 181, 254

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1951

Baptist Handbook, 1900

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru, 1900

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru, iv, 335-7 (a rydd 1851 yn flwyddyn ei eni)

Notable Welshmen (1700–1900) (1908), 465

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361511

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu